

Arolygiad Gwasanaeth Iechyd Meddwl (Dirybudd)

Ysbyty'r Tywysog Philip,
Ward Bryngofal

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda

Dyddiad yr Arolygiad:

19 – 21 Chwefror 2017

Dyddiad Cyhoeddi: 22 Mai 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan GIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
Ebost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb	4
4.	Canfyddiadau	5
	Ansawdd profiad y claf	5
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	10
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	16
5.	Y camau nesaf	20
6.	Methodoleg	21
	Atodiad A	23

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas, neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad dirybudd o ward iechyd meddwl oedolion Bryngofal yn Hywel Dda fin nos ar 19 Chwefror 2017 a dyddiau dilynol 20 ac 21 Chwefror 2017. Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ysbyty'r Tywysog Philip, Ward Bryngofal, Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Oedolion
- Ysbyty'r Tywysog Philip, Ward Bryngolau, Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn (gweler yr adroddiad ar wahân)

Roedd ein tîm arolygu yn cynnwys dau reolwr arolygu AGIC (arweiniwyd yr arolygiad gan un ohonynt) a dau adolygydd cymheiriaid clinigol (yr oedd un ohonynt yn adolygydd Deddf Iechyd Meddwl enwebedig).

Yn ystod yr arolygiad hwn, adolygwyd dogfennau gennym ar gyfer cleifion a gedwir o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu cydymffurfiad â'r Ddeddf.

Mae rhagor o fanylion am ein dull o arolygu gwasanaethau GIG ar gael yn Adran 6.

2. Cyd-destun

Mae Ward Bryngofal, Ysbyty'r Tywysog Philip yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl yn ardal Llanelli Cyngor Sir Caerfyrddin ar hyn o bryd. Mae Ward Bryngofal yn rhan o'r Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl Oedolion ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Ward iechyd meddwl asesu aciwt i oedolion yw Ward Bryngofal. Ceir 24 o ystafelloedd gwely unigol ar y ward; fodd bynnag, roedd y ward wedi ei chomisiynu ar gyfer 21 gwely ar adeg ein harolygiad. Roedd hyn wedi cael ei gynyddu o 18 gwely er mwyn cynorthwyo i leddfu'r pwysau capasiti gwelyau yng ngwasanaeth iechyd meddwl oedolion y bwrdd iechyd.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm staff sy'n cynnwys rheolwr ward a dirprwy reolwr ward. Roedd y swyddi hyn wedi eu llenwi ar sail dros dro ar adeg yr arolygiad. Mae tîm y ward yn cynnwys nifer o nyrsys iechyd meddwl cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd; fodd bynnag, roedd y ward yn dibynnu ar y defnydd o staff cronfa ac asiantaeth i ymateb i ddiffygion o ran sifftiau oherwydd swyddi gwag a salwch.

3. Crynodeb

Yn gyffredinol, canfuwyd tystiolaeth gennym fod diffyg systemau priodol a staff rheolaidd digonol ar Ward Bryngofal i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Dyma a ganfuwyd gennym fod y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn darparu gofal i gleifion ar Ward Bryngofal mewn ffordd barchus
- Roedd mewnbyn therapi galwedigaethol yn darparu amrywiaeth dda o asesiadau a gweithgareddau cleifion
- Roedd achosion o gadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â'r Ddeddf.

Dyma'r hyn yr ydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth ei wella:

- Y model gwasanaeth o wasanaethau iechyd meddwl i gleifion mewnol sy'n oedolion yn y bwrdd iechyd i ddiwallu anghenion ei boblogaeth
- Gweithdrefnau diogelwch y ward, ac addasrwydd ac argaeledd larymau personol yn benodol
- Recriwtio a chadw nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd i ddarparu gofal cyson i gleifion
- Sefydlogrwydd yr arweinyddiaeth
- Cwblhau dogfennau, gan gynnwys dogfennau Cynllun Gofal a Thriniaeth a siartiau arsylwi cleifion uwch.

4. Canfyddiadau

Ansawdd profiad y claf

Gwelsom y staff yn trin cleifion â pharch a charedigrwydd trwy gydol ein harolygiad. Roedd y staff yn gwneud pob ymdrech i gynnal urddas cleifion ac roedd yr ystafelloedd gwely *en suite* yn cynnig preifatrwydd ychwanegol i'r cleifion.

Canfuwyd tystiolaeth gennym o bryder ynghylch y pwysau ar gapasiti gwelyau ar Wasanaeth Iechyd Meddwl Oedolion y bwrdd iechyd a arweiniodd ar adegau at gleifion yn cysgu mewn manau nad ydynt yn ystafelloedd gwely, fel cyfleusterau Adran 136 neu ar soffas lolfa. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu ei fodel gofal a'i gapasiti cleifion mewnol i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion ei boblogaeth yn brydlon.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod y therapyddion galwedigaethol a oedd newydd eu penodi wedi cychwyn grŵp hunan-help cydgyfrannol wythnosol i'r cleifion.

Gofal gydag urddas

Safon 4.1 Gofal gydag urddas

Mae profiad pobl o ofal iechyd yn un lle mae pawb yn cael ei drin ag urddas, parch, tosturi a charedigrwydd ac sy'n cydnabod ac yn diwallu anghenion corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol unigolion.

Canfuwyd gennym fod cleifion yn yr ysbyty yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff sy'n gweithio ar Ward Bryngofal.

Roedd hysbysfwrdd cipolwg ar statws cleifion¹ yn swyddfa'r ward yn dangos gwybodaeth am bob claf sy'n derbyn gofal ar y ward. Roedd cyfleusterau i

¹ Hysbysfwrdd sy'n cynnig adnodd cyfeirio cyflym i staff at wybodaeth hanfodol am y cleifion unigol sy'n derbyn gofal ar y ward.

guddio'r wybodaeth gyfrinachol pan nad oedd yr hysbysfyrddau'n cael eu defnyddio; fodd bynnag, nid oedd y rhain yn cael eu defnyddio'n gyson.

Roedd gan y cleifion eu hystafelloedd gwely eu hunain â chyfleusterau *en suite* gan gynnwys toiled, sinc a chawod. Roedd ystafelloedd gwely'r cleifion wedi eu dodrefnu'n addas ac roedd digon o le i'r claf a'i eiddo ynddynt. Roedd y cleifion yn gallu cael mynediad at eu hystafelloedd gwely yn rhydd a'u cloi o'r tu mewn; roedd y staff yn gallu agor y cloeon os oedd angen.

Roedd drysau'r holl ystafelloedd ymolchi *en suite* wedi cael eu tynnu i ffwrdd a'u disodli gan len cawod yn dilyn asesiad risg ar draws y bwrdd iechyd cyfan. Roedd hyn yn lleihau'r preifatrwydd i gleifion yn eu cyfleusterau *en suite*. Dylai'r bwrdd iechyd ailystyried y risgiau cysylltiedig i sicrhau bod dull unigoledig o reoli risgiau o hunan-niweidio sy'n cynnig cymaint o breifatrwydd ac urddas â phosibl i gleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr hysbysfwrdd cipolwg ar wybodaeth cleifion yn cael ei orchuddio pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.

Dylai'r bwrdd iechyd ailystyried risgiau cysylltiedig drysau cyfleusterau en suite i sicrhau bod dull unigoledig o reoli risgiau.

Safon 4.2 Gwybodaeth ar gyfer cleifion

Rhaid i bobl gael gwybodaeth lawn am eu gofal a honno'n hygyrch, yn ddealladwy ac mewn iaith a dull sy'n ystyriol o'u hanghenion i'w galluogi a'u helpu i wneud penderfyniad gwybodus am eu gofal fel partner cyfartal.

Safon 3.2 Cyfathrebu'n effeithiol

Wrth gyfathrebu â phobl mae gwasanaethau iechyd yn diwallu anghenion unigolion o ran iaith a chyfathrebu mewn modd rhagweithiol.

Roedd manau ar draws y ward gyfan lle'r oedd gwybodaeth gyfredol am gleifion wedi ei harddangos yn eglur a nodwyd arwyddion priodol gennym drwy'r ward gyfan.

Roedd yn amlwg o'n harsylwadau ar ryngweithio rhwng y staff a'r cleifion bod y staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu â'r cleifion yn effeithiol. Roedd y staff

yn cymryd amser i gynnal trafodaethau gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn briodol i'r claf unigol. Pan nad oedd cleifion yn eglur o hyd, neu'n camddeall, byddai'r staff yn egluro'n amyneddgar yr hyn yr oeddent wedi ei ddweud.

Gofal amserol

Safon 5.1 Mynediad amserol

Mae pob agwedd ar ofal yn cael ei darparu mewn ffordd amserol gan sicrhau bod pobl yn cael eu trin ac yn cael gofal yn y ffordd gywir, yn y lle cywir a chyda'r staff cywir.

Ar adeg ein harolygiad, roedd Ward Bryngofal wedi'i neilltuo'n ward 19 gwely. Roedd 24 o ystafelloedd gwely ar y ward, chwech ohonynt wedi'u datgomisiynu. Roedd gwaith ailwampio yn cael ei wneud ar dair o'r ystafelloedd gwely a ddatgomisiynwyd ac felly ni ellid eu defnyddio. Agorwyd y tair ystafell wely arall a ddatgomisiynwyd drwy'r arolygiad, gan roi 21 gwely i'r ward, pob un ohonynt wedi'i lenwi.

Roedd y bwrdd iechyd yn cynnal cyfarfod statws gwelyau beunyddiol i nodi lle'r oedd gwelyau heb eu llenwi, os oedd rhai, pa un a oedd yn debygol y byddai cleifion yn cael eu rhyddhau o'r ward ac unrhyw dderbyniadau posibl i'r ward.

Adolygwyd lefelau defnydd gwelyau'r chwe mis diwethaf ar gyfer gwasanaeth iechyd meddwl oedolion y bwrdd iechyd. Roedd problemau eglur o ran capasiti gwelyau gyda'r galw am welyau yn fwy na'r nifer sydd ar gael yn y bwrdd iechyd.

Oherwydd y lefelau defnydd gwelyau, roedd cleifion o Hywel Dda yn cael eu derbyn i ward yn y bwrdd iechyd a oedd â gwely ar gael yn hytrach na'r ward leol i'r claf. Roedd hyn yn golygu y byddai'r claf weithiau'n cael ei dderbyn i fwrdd iechyd cyfagos tan fod gwely ar gael yn Hywel Dda. Pan nad oedd gwelyau ar gael, byddai cleifion yn cael eu derbyn i wardiau ac roedd y claf naill ai'n cael llety dros nos yn y cyfleuster Adran 136² neu yn Iolfa'r ward. Er bod y defnydd o'r mesurau hyn yn gofyn am awdurdodiad gan y Rheolwr ar

alwad, nid yw'n briodol rhoi llety dros dro i gleifion y tu allan i ystafell wely neilltuedig.

Nid oes gan y bwrdd iechyd unrhyw welyau adsefydlu a gwella iechyd meddwl i oedolion. Mae hyn yn golygu y gallai fod yn ofynnol i rai cleifion aros ar ward derbyniadau aciwt tan eu bod yn barod i gael eu rhyddhau i wasanaethau cymunedol, gan ymestyn eu harhosiad ar ward aciwt o bosibl, ac oedi derbyniad claf arall oherwydd y problemau capasiti gwelyau yn y bwrdd iechyd.

Roedd y defnydd o gyfleusterau Adran 136 i leddfu pwysau defnydd gwelyau yn golygu, pe bai claf yn cael ei leoli yn y cyfleuster, na fyddai ar gael at y diben y'i bwriadwyd ar ei gyfer. Fe'n hysbyswyd gan y staff a'r uwch reolwyr bod cyfleusterau Adran 136 y bwrdd iechyd yn cael eu staffio gan staff ward yn ôl y gofyn. Fodd bynnag, o ystyried y lefel uchel barhaus o ddefnydd gwelyau ar wardiau yn y bwrdd iechyd, nododd staff a rheolwyr y bwrdd iechyd anhawster yn rhyddhau staff o wardiau i staffio cyfleusterau Adran 136. Fe'n hysbyswyd y byddai'r bwrdd iechyd i bob pwrpas yn 'cau' cyfleuster Adran 136 i dderbyniadau yn yr achosion hyn. Dylai'r bwrdd iechyd adolygu ei gyfleusterau a'i drefniadau Adran 136 i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion ei boblogaeth o ran darparu derbyniadau prydlon i'r ysbyty yn unol â gofynion y Ddeddf Iechyd Meddwl (y Ddeddf).

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r capasiti gwelyau a'r ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion i sicrhau y gall ddiwallu anghenion ei boblogaeth yn effeithiol.

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu ei gyfleusterau a'i drefniadau Adran 136 i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion ei boblogaeth o ran darparu derbyniadau prydlon i'r ysbyty yn unol â gofynion y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Safon 6.3 Gwranddo a dysgu o adborth

Rhaid i bobl sy'n cael gofal, a'u teuluoedd, gael eu grymuso i ddisgrifio eu profiadau wrth y rhai a ddarparodd eu gofal fel bod dealltwriaeth eglur o'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda, a rhaid iddynt gael ymateb agored a gonest. Dylai gwasanaethau iechyd gael eu trefnu gan anghenion y bobl a wasanaethir a mynd i'r afael â'r anghenion hynny a dangos eu bod yn gweithredu ar adborth ac yn dysgu ohono.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod y therapydd galwedigaethol a oedd newydd gael ei benodi yn cynnal cyfarfod cleifion wythnosol. Roedd y cyfarfod yn caniatáu i'r cleifion gynnig adborth ar y gofal a'r cyfleusterau ar Ward Bryngofal. Roedd y cyfarfodydd yn cael eu cofnodi'n ysgrifenedig a'r camau gweithredu yn cael eu cofnodi.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Adolygwyd y papurau statudol gwreiddiol a gedwir gan yr Adran Deddf Iechyd Meddwl i wirio cydymffurfriad â'r Ddeddf. Cadarnhaodd y bwrdd iechyd y bydd adolygiad o ddogfennau'r Ddeddf ar y ward yn cael ei gynnal i sicrhau bod y dogfennau priodol ar gael yn rhwydd i staff y ward.

Roedd gan y bwrdd iechyd system cofnodion cleifion electronig dda ar waith. Fodd bynnag, nid oedd dogfennau Cynllun Gofal a Thriniaeth wedi cael eu cofnodi yn adran neilltuedig y cofnod electronig. Nodwyd gennym fod rhai Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn anghyflawn a/neu nad oeddent wedi nodi Cydgysylltydd Gofal y claf.

Roedd dau faes o bryder o ran diogelwch cleifion a staff a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd ar waith yn dilyn yr arolygiad. Mae'r bwrdd iechyd wedi cyflwyno mesurau i liniaru'r risgiau tra bod gwaith ychwanegol yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r problemau.

Cymhwyso'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Adolygwyd dogfennau cadw statudol tri chlaf ar Ward Bryngofal gyda Rheolwr Deddf Iechyd Meddwl y bwrdd iechyd a oedd yn gallu darparu'r holl ddogfennau statudol fel y gallem fod yn fodlon bod achosion o gadw cleifion o dan y Ddeddf yn cydymffurfio.

O ystyried y broses cadw cofnodion gwael o ran dogfennau statudol a nodwyd gennym ar ward arall yn Ysbyty'r Tywysog Philip, Bryngolau (a arolygwyd ar yr un pryd â Bryngofal), cadarnhaodd y bwrdd iechyd y bydd adolygiad o ddogfennau'r Ddeddf a gedwir ar y ward yn cael ei gynnal.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dogfennau Deddf Iechyd Meddwl yn cael eu ffeilio'n briodol ac ar gael ar gyfer staff ward.

Cynllunio a darparu gofal - Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

Adolygwyd pedair set o ddogfennau Cynllun Gofal a Thriniaeth a oedd wedi eu cadw ar y cofnod cleifion electronig. Nodwyd yr arsylwadau canlynol:

- Roedd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth o safon anghyson ac nid oedd gwybodaeth allweddol wedi ei chynnwys

- Nid oedd gan yr holl gleifion gofnod o Gydgysylltydd Gofal a nodwyd, ac roedd hyn yn cynnwys dau glaf a oedd wedi bod ar y ward ers mis
- O ran cleifion arhosiad hwy, roedd tystiolaeth o adolygiadau cynllun gofal helaeth gan gynnwys y cleifion.

Roedd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn cael eu cadw ar y cofnod cleifion electronig. Fodd bynnag, nid oedd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth Cleifion wedi eu cynnal yn adran Cynllunio Gofal neilltuedig y cofnodion electronig ond wedi eu cofnodi yn yr un adran â'r holl wybodaeth glinigol. Roedd hyn yn golygu ei bod yn gymhleth ac yn cymryd llawer o amser i adolygu cynlluniau gofal ymhlith cofnodion clinigol eraill. Roedd hyn yn peri pryder penodol oherwydd y diffyg parhad staff ac felly roedd perygl y byddai staff dros dro yn cael trafferth yn dysgu am gleifion o'u cynlluniau gofal.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl Gynlluniau Gofal a Thriniaeth yn cael eu cwblhau yn unol â gofynion Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl Gynlluniau Gofal a Thriniaeth yn nodi Cydgysylltydd Gofal y claf.

Gofal diogel

Safon 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Mae iechyd, diogelwch a lles pobl yn cael eu hybu a'u diogelu'n weithredol. Mae risgiau'n cael eu hadnabod, eu monitro a lle y bo'n bosibl, yn cael eu lleihau neu eu hatal.

Roedd y ward wedi ei diogelu rhag mynediad heb awdurdod trwy ddrws wedi ei gloi; byddai'r staff yn agor y drws i adael pobl i mewn. Roedd y drws wedi ei gloi drwy'r arolygiad er mwyn atal unrhyw un heb awdurdod rhag gadael y ward. Ar adeg yr arolygiad, roedd rhai cleifion a oedd yn derbyn gofal fel cleifion anffurfiol, yn wirfoddol neu nad oeddent yn cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw wybodaeth wedi ei harddangos ar gyfer cleifion anffurfiol i'w hysbysu eu bod yn gallu gadael, a sut i wneud hynny pe baent yn dymuno.

Roedd yn peri pryder nad oedd gan y staff larymau personol i hysbysu staff eraill os oedd angen cymorth arnynt. Roedd larwm integredig personol a larymau wedi eu gosod ar y wal ar y ward, ond dim ond un larwm personol oedd yn gweithio.

Roedd nifer o fannau ar y ward lle gallai'r staff fod yn gweithio ar eu pen eu hunain lle a allai cydweithwyr eu gweld a, heb larymau personol, gallai fod yn anodd iddynt hysbysu'r staff bod angen cymorth.

Fe'n hysbyswyd gan yr uwch reolwyr y byddai system larwm newydd yn cael ei gosod yn ystod 2017; fodd bynnag, nid oedd gan staff y ward larymau personol priodol ar adeg ein harolygiad. Ymdriniwyd â'n pryderon ynghylch y diffyg larymau personol o dan ein proses sicrwydd ar unwaith. Roedd hyn yn golygu i ni ysgrifennu at y bwrdd iechyd yn syth ar ôl yr arolygiad yn ei gwneud yn ofynnol i gamau unioni brys gael eu cymryd. Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi eu bod wedi cyflymu'r gwaith o gwmpasu'r ddarpariaeth o larymau yn yr holl wasanaethau iechyd meddwl cleifion mewnol i oedolion ac, yn y cyfamser, mae'r bwrdd iechyd wedi cyflwyno eu Gweithdrefn Weithredu Safonol sydd ar waith ar gyfer defnyddio larymau ymosodiad personol dros dro. Rhoddir rhagor o fanylion am hyn yn Atodiad A.

Codwyd pryderon gennym hefyd ynghylch y diffyg goleuadau priodol yn yr ardd. Roedd yr ardd wedi ei goleuo'n wael mewn nifer o dannau yn ystod y nos a oedd yn creu mannau tywyll. Nid oedd y staff yn gallu gweld yr holl fannau hyn yn rhwydd i ganfod a oedd claf wedi ei leoli yn y mannau tywyll, ac felly nid oeddent yn gallu sicrhau bod yr holl gleifion yn ddiogel. Ymdriniwyd â'n pryderon ynghylch y goleuo gwael yn yr ardd o dan ein proses sicrwydd ar unwaith. Mae'r bwrdd iechyd wedi dweud bod y goleuadau presennol wedi cael eu harchwilio i nodi unrhyw addasiadau a goleuadau ychwanegol sydd eu hangen, gwnaed tortshis ar gael a rhoddwyd mesurau ar waith ar gyfer mwy o archwiliadau o'r ardd. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn Atodiad A.

Nodwyd gennym yn ystod adolygiad o gofnodion cleifion na chafodd taflenni gwirio arsylwadau estynedig eu cwblhau gan y staff. Mae hyn yn golygu na allwn fod yn sicr bod y staff yn cwblhau arsylwadau estynedig fel sy'n ofynnol. Os na all y staff ddangos eu bod wedi cwblhau arsylwadau estynedig, ni all y bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn darparu gofal diogel ac yn lliniaru peryglon diogelwch a allai effeithio ar les cleifion, staff ac ymwelwyr.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r Bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion anffurfiol yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'u hawl i adael yr ysbyty os ydynt yn dymuno, (Cod Ymarfer Cymru 2016, paragraff 4.22).

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o larymau priodol ar gael ar y ward ar gyfer staff ac ymwelwyr.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl rannau o'r ardd ar gyfer cleifion wedi eu goleuo'n briodol.

Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd Sicrhau bod y staff yn cynnal cofnodion llawn o arsylwadau estynedig.

Safon 2.4 Atal a rheoli heintiau a dadhalogi

Mae angen i gamau i atal heintiau fod yn fusnes i bawb a rhaid iddynt fod yn rhan o arfer pob dydd ym maes gofal iechyd ac yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael fel bod pobl yn cael eu diogelu rhag heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd y gellir eu hatal.

Mae'r bwrdd iechyd yn cyflogi staff cadw tŷ penodol; roedd holl rannau Ward Bryngofal yn ymddangos yn lân trwy gydol yr arolygiad. Roedd yr ystafell ymolchi, y cawodydd a'r toiledau cymunedol yn lân, yn daclus ac yn rhydd o annibendod.

Safon 2.5 Maethiad a hydradiad

Mae pobl yn cael eu helpu i ddiwallu eu hanghenion o ran maethiad a hydradiad, er mwyn cael yr adferiad gorau posibl ar ôl afiechyd neu anaf.

Roedd y cleifion yn cael cynnig opsiynau ar gyfer eu prydau bwyd gan gynnwys opsiwn i lysieuwyr. Roedd gan y cleifion fynediad at ddiodydd poeth ac oer drwy'r dydd ac roedd amrywiaeth o fyrbrydau a ffrwythau ar gael i'r cleifion ar y ward hefyd.

Ni chododd y cleifion unrhyw bryderon am y bwyd ar y cyfan, ac roeddent yn teimlo ei fod yn rhesymol. Fodd bynnag, dywedodd rhai cleifion i ni siarad â nhw nad oedd ffrwythau/byrbrydau iachus bob amser ar gael ar y ward.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd Sicrhau bod ffrwyth/byrbrydau iachus ar gael yn rhwydd bob amser.

Safon 2.6 Rheoli meddyginiaethau

Mae pobl yn cael meddyginiaeth am y rheswm cywir, yn cael y feddyginiaeth gywir, y dos cywir ohoni a hynny ar yr amser cywir.

Ar y cyfan, canfuwyd gennym fod y broses o roi meddyginiaeth i'r cleifion yn cael ei rheoli'n dda ar Ward Bryngofal. Roedd yr holl feddyginiaeth wedi'i storio'n briodol ac roedd yr holl feddyginiaeth i ni ei gwirio yn gyfredol. Roedd y trolïau meddyginiaeth wedi eu diogelu'n briodol yn yr ystafelloedd clinig. Roedd yr holl gypyrddau meddyginiaeth wedi eu cloi'n briodol ar gyfer storio meddyginiaethau'n ddiogel. Roedd yr holl gypyrddau Cyffuriau a Reolir wedi eu cloi ac roedd yr holl gofnodion yn y llyfr Cyffuriau a Reolir yn cael eu llofnodi fel sy'n ofynnol gan ddau aelod o staff pan roedd cyffuriau a reolir yn cael eu cymryd allan o'r cwpwrdd Cyffuriau a Reolir.

Roedd y staff yn mesur ac yn cofnodi tymheredd yr oergelloedd meddyginiaeth yn rheolaidd yn y clinigau er mwyn sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu storio ar y tymheredd gofynnol.

Safon 2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Mae'r gwasanaethau iechyd yn hybu ac yn diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu'n wynebu risg ar unrhyw adeg.

Canfuwyd gennym fod gan y staff fynediad at bolisi cyfredol y bwrdd iechyd ar amddiffyn oedolion agored i niwed a gwybodaeth ddigonol amdano.

Gofal effeithiol

Safon 3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Dylai gofal, triniaeth a phrosesau penderfynu adlewyrchu arfer gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir i ddiwallu eu hanghenion unigol.

Roedd tîm ymroddedig ar y ward ond bu lefelau uchel o salwch a swyddi gwag yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a oedd yn golygu bod lefelau sylweddol o

staff cronfa ac asiantaeth yn gweithio ar y ward. Nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad nad oedd y nyrsys cofrestredig a oedd yn gweithio ar y ward yn barhaol i'r ward yn aml, ac felly roedd eu gwybodaeth am y grŵp cleifion a/neu gynllun a gweithdrefnau'r ward yn gyfyngedig.

Gallem weld fod y staff yn gwneud eu gorau i sicrhau bod y cleifion yn derbyn gofal priodol ac i ddarparu amgylchedd diogel i'r cleifion. Fodd bynnag, oherwydd y diffyg cysondeb o ran staff a gwybodaeth gyfyngedig rhai aelodau staff am y cleifion, nid oeddent yn gallu darparu gofal unigoledig manwl ac effeithiol i'r cleifion.

Roedd y bwrdd iechyd wedi sefydlu systemau ar gyfer diwygio polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau yn rheolaidd, neu ar yr adeg pan roedd angen newid. Roedd hyn yn golygu bod gan y staff fynediad at ganllawiau polisi cyfredol i'w helpu i ofalu am eu cleifion.

Roedd digwyddiadau'n cael eu cofnodi trwy system hysbysu am ddiwyddiadau cyfrifiadurol y bwrdd iechyd. Roedd hyn yn cynnig llywodraethiad o ran monitro ac adolygu digwyddiadau ar Ward Bryngofal.

Safon 3.5: Cadw cofnodion

Mae trefniadau da ar gyfer cadw cofnodion yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn cael gofal effeithiol a diogel. Rhaid i wasanaethau iechyd sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n unol â deddfwriaeth a chanllawiau ar safonau clinigol.

Roedd cofnodion wedi eu storio'n ddiogel i atal pobl heb awdurdod rhag cael mynediad atynt a'u darllen. Roedd nodiadau beunyddiol yng nghofnodion unigol cleifion yn rheolaidd drwy'r dydd ac yn fanwl fel ei bod yn hawdd deall gweithgarwch a chyflwyniad y claf.

Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, roedd gwybodaeth cynlluniau gofal wedi ei gofnodi ymhlith cofnodion clinigol eraill a oedd yn golygu ei bod yn gymhleth ac yn cymryd llawer o amser i adolygu cynlluniau gofal.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Roedd tystiolaeth fod y rheolwr ward dros dro a'r dirprwy reolwr ward dros dro wedi darparu cymorth ac arweinyddiaeth ers dechrau'r swyddi. Fodd bynnag, roedd pwysau capasiti gwelyau'r bwrdd iechyd a staffio anghyson, trwy ddefnyddio staff cronfa ac asiantaeth, wedi effeithio ar allu'r rheolwyr i reoli a rhedeg y ward. Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r gofynion cymorth rheoli ar gyfer Ward Bryngofal.

Roedd uwch reolwyr y bwrdd iechyd yn ymwybodol o'r heriau a wynebir ar draws gwasanaeth iechyd meddwl oedolion y bwrdd iechyd a sut yr oeddent yn effeithio ar y ddarpariaeth o wasanaethau iechyd meddwl ar lefel ward. Roedd yr uwch reolwyr wedi ystyried darpariaeth gwasanaeth y bwrdd iechyd yn y dyfodol ac mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r model gwasanaeth presennol i sicrhau bod y ddarpariaeth o wasanaethau iechyd meddwl cleifion mewnol yn diwallu anghenion poblogaeth y bwrdd iechyd.

Mae angen i'r bwrdd iechyd ddarparu sefydlogrwydd i weithlu Ward Bryngofal i sicrhau cysondeb o ran staff a lleihau'r ddibyniaeth ar staff cronfa ac asiantaeth.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y Safonau Iechyd a Gofal, Rhan 2 - Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol sy'n gyson â maint a chymhlethdod y gwasanaeth iechyd yn hanfodol i gyflenwi gofal diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn modd cynaliadwy.

Roedd yn gadarnhaol bod y staff yn croesawu ein safbwyntiau, ein canfyddiadau a'n hargymhellion trwy gydol yr arolygiad, er gwaethaf y problemau a nodwyd ar Ward Bryngofal.

Roedd rheolwr ward dros dro a dirprwy reolwr ward dros dro yn gweithio ar Ward Bryngofal ac yn gallu cynnig cymorth i'r ward ynghyd â sefydlogrwydd o ran arweinyddiaeth. Roedd staff y ward yn llawn canmoliaeth i'r cymorth yr oeddent yn ei dderbyn gan ei gilydd ac yn siarad am ymrwymiad tîm cryf er gwaethaf pwysau'r ward.

Roedd yn amlwg trwy gydol yr arolygiad bod angen i'r rheolwr ward dros dro dreulio llawer iawn o amser yn dod o hyd i staff ar gyfer prinder shifftiau. Roedd hyn yn golygu bod ganddynt lai o amser i ddarparu cymorth uniongyrchol i'r ward. Roedd y dirprwy reolwr ward dros dro yn gallu rhoi cymorth rheoli i'r ward. Fodd bynnag, roedd yr anawsterau a wynebwyd gan y ward oherwydd pwysau capasiti gwelyau a staff annigonol ar adeg ein harolygiad yn effeithio ar faint o amser y gallai'r unigolion ei ddarparu i gynorthwyo a rheoli'r ward. Dylai'r bwrdd iechyd adolygu gofynion cymorth rheoli'r ward i sicrhau bod cymorth digonol i staff y ward ac i sicrhau bod gweithdrefnau ac archwiliadau clinigol yn cael eu cwblhau.

Bu nifer o newidiadau hefyd i bersonél ymhlith yr uwch reolwyr yn y gyfarwyddiaeth iechyd meddwl oedolion yn ystod y flwyddyn flaenorol. Yn ystod ein trafodaethau gyda staff ward a oedd yn gweithio ar Ward Bryngofal, roedd gan nifer o staff ddiffyg gwybodaeth am y newidiadau personol diweddar ymhlith yr uwch reolwyr. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut i wella gwybodaeth staff y ward am uwch reolwyr y bwrdd iechyd a sut i gael mynediad atynt.

Roedd uwch reolwyr y bwrdd iechyd yn ymwybodol o'r heriau a wynebir ar draws gwasanaeth iechyd meddwl oedolion y bwrdd iechyd; yn enwedig pwysau ar gapasiti gwelyau ac adnoddau staff, a sut y maent yn effeithio ar weithrediad Ward Bryngofal. Roedd yr uwch reolwyr hefyd yn ystyried sut i fynd i'r afael â'r diffyg gwelyau adsefydlu i oedolion yn y bwrdd iechyd a'r anawsterau'n ddarparu cyfleusterau Adran 136 ar draws y bwrdd iechyd.

Canfuwyd o siarad gyda'r uwch reolwyr bod gweledigaeth ar gyfer darpariaeth y gwasanaeth yn y dyfodol mewn ymdrech i ymateb i'r heriau y mae'r gwasanaeth iechyd meddwl oedolion yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Rhoddwyd nifer o ystyriaethau ar ddyfodol y gwasanaeth iechyd meddwl i oedolion gan yr uwch reolwyr.

Fel y nodir o dan adran **Gofal Amser** yr adroddiad hwn, mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r model gwasanaeth presennol i sicrhau bod y ddarpariaeth o wasanaethau iechyd meddwl cleifion mewnol yn diwallu anghenion poblogaeth y bwrdd iechyd.

Disgwyliwyd i'r clinigydd cyfrifol a neilltuwyd i Ward Bryngofal symud ymlaen o'i swydd ym mis Mai 2017. Ar adeg ein harolygiad, ni allai'r bwrdd iechyd gadarnhau trefniadau parhaol ar ôl i'r clinigydd cyfrifol cyfredol adael ei swydd. Rhoddwyd sicrwydd llafar i ni fod y bwrdd iechyd yn ystyried opsiynau i gael clinigydd cyfrifol newydd. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gadarnhau trefniadau i lenwi'r swydd clinigydd cyfrifol wag.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r gofynion cymorth rheoli ar gyfer Ward Bryngofal.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut i wella gwybodaeth staff y ward am uwch reolwyr y bwrdd iechyd.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gadarnhau pa drefniadau sydd ar waith i lenwi'r swydd clinigydd cyfrifol wag.

Staff ac adnoddau

Safon 7.1 Y Gweithlu

Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau bod digon o staff â'r wybodaeth a sgiliau cywir ar gael ar yr amser cywir i ddiwallu'r angen.

Bu gan Ward Bryngofal nifer o swyddi nyrsys cofrestredig gwag a lefelau salwch uchel, gan gynnwys rhywfaint o salwch hirdymor, dros y flwyddyn flaenorol. Hefyd, oherwydd ymddangosiad a heriau rhai cleifion, bu'n ofyniad rheolaidd i'r ward weithredu lefelau arsylwi estynedig â staff ychwanegol gofynnol. O ganlyniad, bu'n ofynnol i'r ward ddefnyddio cyfran uchel o staff cronfa'r bwrdd iechyd neu staff asiantaeth, ac roedd y staff hyn yn fwyafrif ar y shifft ar adegau. O ganlyniad, bu anghysondeb o ran staffio ar Ward Bryngofal.

Roedd staff y ward yn bryderus, a hynny'n ddealladwy, am y lefelau uchel o staff cronfa ac asiantaeth oedd eu hangen i lenwi rotâu'r ward. Roedd yn amlwg bod staff rheolaidd yn gweithio shifftiau ychwanegol i lenwi bylchau mewn rotâu, weithiau ar fyr rybudd i weithio oriau ychwanegol ar ddiwedd eu shifft a drefnwyd. Mae'n peri pryder y gallai'r pwysau ar staff y ward i weithio shifftiau ychwanegol ac estynedig effeithio ar les aelodau staff.

Yn ystod ein harolygiad, cyfarfûm â staff bwrdd iechyd yn cwblhau shifftiau a oedd braidd wedi gweithio ar y ward, ac nid oedd y nyrs â gofal ar un shifft wedi gweithio ar y ward o'r blaen. Roedd yn amlwg bod y staff yn gweithio hyd eithaf eu gallu er gwaethaf gwybodaeth gyfyngedig am y grŵp cleifion, cynllun a gweithdrefnau'r ward, a'r aelodau staff eraill. Roedd yn amlwg bod staff rheolaidd y ward yn cefnogi a chynorthwyo staff a oedd yn llai cyfarwydd â'r cleifion ar y ward.

Gan nad oedd aelodau staff yn gyfarwydd â'r grŵp cleifion na'r ward, roedd effaith ar ba mor hir yr oedd gweithdrefnau'r ward yn eu cymryd, e.e. cyfarfodydd rowndiau ward, cyfarfodydd trosglwyddo rowndiau meddyginiaeth, gan leihau'r faint o amser oedd ar gael i'r staff ymgysylltu â chleifion.

Roedd y bwrdd iechyd wedi recriwtio i swyddi nyrs gofrestrdig gwag y ward yn ddiweddar, ac roedd disgwyl i'r staff ddechrau eu swyddi'n fuan. Dylai hyn wella cysondeb y staff a lleihau'r angen am staff cronfa a/neu asiantaeth.

Cododd y staff bryderon hefyd nad ydynt yn gallu cael cyfarfodydd tîm rheolaidd oherwydd y pwysau staffio, a bod rhaid i staff ganslo eu hyfforddiant weithiau er mwyn sicrhau bod digon o staff ar y ward.

Cododd rhai cleifion bryderon eu bod yn cael trafferth i siarad â nyrs a allai gael trafodaeth wybodus am eu gofal a'u triniaeth â nhw oherwydd staff anghyson.

Roedd mewnbwn therapi galwedigaethol da i Ward Bryngofal gyda rhai o'r tîm therapi galwedigaethol yn benodol i'r ward. Roedd y tîm therapi galwedigaethol yn darparu amrywiaeth dda o asesiadau, gweithgareddau ar gyfer y dyfodol a chymunedol i helpu cleifion i gynnal a datblygu sgiliau.

Roedd campfa ward ar Ward Bryngofal ac roedd gan y ward ddau aelod o staff a oedd yn hyfforddwyr hyfforddedig ar adeg yr arolygiad. Fodd bynnag, dywedodd y cleifion a'r staff, oherwydd pwysau staffio a staff yn gweithio shifftiau, y byddai hyfforddwyr ychwanegol yn fuddiol fel y gallai'r cleifion ddefnyddio'r campfa yn fwy rheolaidd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynllun rheoli'r gweithlu i ddarparu tîm staff cyson ar gyfer Ward Bryngofal a sicrhau cyn lleied o ddefnydd â phosibl o staff cronfa ac asiantaeth.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried cynyddu nifer yr hyfforddwyr campfa hyfforddedig ar gyfer Ward Bryngofal.

5. Y camau nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i ddelio â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai cynllun gwella'r bwrdd iechyd ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ar Ward Bryngofal yn cael eu trin, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r camau a gymerir gan y bwrdd iechyd mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r bwrdd iechyd yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r bwrdd iechyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Caiff cynllun gwella'r bwrdd iechyd, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.


6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal Newydd (gweler ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau o ysbytai yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r Safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd a ddarperir i gleifion.

Pan fo'n briodol, mae arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl yn ystyried sut y mae gwasanaethau yn cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl 1983, y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal 2015

Ffigur 1



Mae arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl yn ddirybudd ac rydym yn arolygu ac yn adrodd yn erbyn tair thema:

- **Ansawdd profiad y claf:**
Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr i sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

- **Cyflenwi gwasanaeth diogel ac effeithiol:**
Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.
- **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth:**
Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Sgyrsiau gyda chleifion a chyfweliadau gyda staff
- Arsylwadau cyffredinol ar amgylchedd y gofal a'r arferion gofal
- Trafodaethau gydag uwch reolwyr yn y gyfarwyddiaeth
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau penodol sy'n sail i ofal cleifion
- Ystyried prosesau, gweithgareddau a rhaglenni gwella ansawdd.

Mae arolygiadau AGIC yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Efallai y byddant hefyd yn nodi problemau ehangach yn gysylltiedig ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gofal iechyd a ddarperir a'r ffordd y mae'r ddarpariaeth o wasanaethau'n sicrhau urddas a gofal hanfodol.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth yn y cyfarfod adborth a gynhelir ar ddiwedd pob un o'n harolygiadau.

Tynnir sylw'r gwasanaeth at unrhyw bryderon brys sy'n codi o'r arolygiadau hyn trwy lythyr sicrwydd ar unwaith. Bydd y canfyddiadau hyn (pan fyddant yn berthnasol) yn cael eu nodi yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Atodiad A

Gwasanaeth Iechyd Meddwl: Cynllun Gwella

Gwasanaeth: Prince Philip Hospital, Bryngofal Ward

Dyddiad yr Arolygiad: 19 – 21 Chwefror 2017

Rhif y Dudalen	Yr Hyn sydd Angen ei Wella	Safon	Camau gan y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf					
6	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr hysbyswrdd cipolwg ar wybodaeth cleifion yn cael ei orchuddio pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.	4.1	<p>Cwblhawyd Dadansoddiad Anghenion Hyfforddiant ar gyfer staff parhaol o ran cydymffurfiad â Hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth.</p> <p>Staff Diffyg Cydymffurfiad i gwblhau hyfforddiant e ddysgu Llywodraethu Gwybodaeth yn unol â'r gofynion hyfforddi gorfodol.</p> <p>Briff cyfathrebu i gael ei anfon at yr holl staff yn eu hatgoffa i gau'r hysbyswrdd cipolwg ar wybodaeth cleifion pan nad yw'n cael ei</p>	<p>Rheolwr y Ward</p> <p>Rheolwr y Ward</p> <p>Pennaeth y Gwasanaeth</p>	<p>7 Ebrill 2017</p> <p>7 Hydref 2017</p> <p>7 Ebrill 2017</p>

Rhif y Dudalen	Yr Hyn sydd Angen ei Wella	Safon	Camau gan y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			ddefnyddio. Bydd briff cyfathrebu yn cael ei gynnwys yn y pecyn ymsefydlu ar gyfer staff newydd.	Rheolwr y Ward	7 Ebrill 2017
6	Dylai'r bwrdd iechyd ailystyried risgiau cysylltiedig drysau cyfleusterau <i>en suite</i> i sicrhau bod dull unigoledig o reoli risgiau.	4.1	Bydd y drysau <i>en suite</i> yn cael eu hailosod yn rhan o'r gwaith cyfalaf gwrth-rwymynnau ar bob ward cleifion mewnol	Pennaeth y Gwasanaeth	Cwblhawyd
8	Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r capasiti gwelyau a'r ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion i sicrhau y gall ddiwallu anghenion ei boblogaeth yn effeithiol.	5.1	Cwblhawyd ymgysylltiad â'r Gwasanaethau Gwednewid Iechyd Meddwl. Datblygwyd Model Consensws y bydd angen ymgynghori cyhoeddus ar elfennau ohono. Papur ymgynghori i gael ei gyflwyno i'r Bwrdd Iechyd ei gytuno ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.	Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth Tîm Prosiect Gwednewid Iechyd Meddwl	Cwblhawyd Cwblhawyd 31 Mai 2017
8	Dylai'r bwrdd iechyd adolygu ei gyfleusterau a'i drefniadau Adran 136 i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion ei boblogaeth o ran	5.1	Cwblhawyd ymgysylltiad â'r Gwasanaethau Gwednewid Iechyd Meddwl. Datblygwyd Model Consensws y	Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth	Cwblhawyd

Rhif y Dudalen	Yr Hyn sydd Angen ei Wella	Safon	Camau gan y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	darparu derbyniadau prydlon i'r ysbyty yn unol â gofynion y Ddeddf Iechyd Meddwl.		bydd angen ymgynghori cyhoeddus ar elfennau ohono. Papur ymgynghori i gael ei gyflwyno i'r Bwrdd Iechyd ei gytuno ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.	Tîm Prosiect Gweddnewid Iechyd Meddwl	Cwblhawyd Mai 2017
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol					
10	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dogfennau Deddf Iechyd Meddwl yn cael eu ffeilio'n briodol ac ar gael ar gyfer staff ward.	Cymhwyso'r Ddeddf Iechyd Meddwl	Archwiliad o ddogfennau deddf iechyd meddwl a gedwir ar y ward i gael ei gynnal i sicrhau cydymffurfiaid â'r drefn cadw cofnodion	Rheolwr Deddf Iechyd Meddwl	31 Mai 2017
11	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl Gynlluniau Gofal a Thriniaeth yn cael eu cwblhau yn unol â gofynion Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.	Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010	Nodi adolygwyr cymheiriaid yn y gwasanaeth i gymryd rhan yn Adolygiad yr Uned Gyflawni o Gynlluniau Gofal a Thriniaeth. Rhoi Argymhellion Adolygiad yr Uned Gyflawni ar waith	Pennaeth y Gwasanaeth Pennaeth y Gwasanaeth	31 Mawrth 2017 Dyddiad i'w benderfynu ar sail pryd y caiff yr adborth ei dderbyn gan yr Uned Gyflawni

Rhif y Dudalen	Yr Hyn sydd Angen ei Wella	Safon	Camau gan y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
11	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl Gynlluniau Gofal a Thriniaeth yn nodi Cydgysylltydd Gofal y claf.	Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010	Cwblhawyd archwiliad cryno i Gynlluniau Gofal a Thriniaeth presennol Briff cyfathrebu i gael ei anfon at yr holl nyrsys penodol yn eu hatgoffa o'r angen i gofnodi enw'r cydgysylltydd gofal Gwybodaeth cydgysylltydd gofal i gael ei hychwanegu at y dogfennau Adolygiad o un set o ddogfennau cleifion i gael ei gynnwys mewn cofnodion goruchwyllo 1-1 ar gyfer Nyrsys Cofrestredig	Rheolwr y Gwasanaeth Pennaeth y Gwasanaeth Nyrsys Penodol Rheolwr y Ward	7 Ebrill 2017 7 Ebrill 2017 14 Ebrill 2017 14 Ebrill 2017
12	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion anffurfiol yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'u hawl i adael yr ysbyty os ydynt yn dymuno, (Cod Ymarfer Cymru 2016, paragraff 4.22).	2.1	Bydd hawliau cleifion anffurfiol yn cael eu hatgyfnerthu yn rhan o'r llwybr derbyn.	Rheolwr y Ward	14 Ebrill 2017
13	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o larymau priodol ar gael ar y ward ar gyfer staff ac ymwelwyr.	2.1	Darganfod cost prynu deg larwm newydd a chontract cynnal a chadw ar gyfer y system bresennol Cyflwyno Cais Cyfalaf i brynu'r	Rheolwr Busnes Pennaeth y	Cwblhawyd

Rhif y Dudalen	Yr Hyn sydd Angen ei Wella	Safon	Camau gan y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
			Iarymau a chontract cynnal a chadw ar gyfer y system bresennol.	Gwasanaeth	Cwblhawyd
13	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl rannau o'r ardd ar gyfer cleifion wedi eu goleuo'n briodol.	2.1	Cyflwyno cais i'r adran ystadau i gynyddu'r goleuo yn yr ardd.	Rheolwr y Gwasanaeth	Cwblhawyd
13	Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y staff yn cynnal cofnodion llawn o arsylwadau estynedig.	2.1	Brif cyfathrebu i gael ei anfon at yr holl Nyrsys Cofrestredig.	Rheolwr y Ward	7 Ebrill 2017
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth					
18	Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r gofynion cymorth rheoli ar gyfer Ward Bryngofal.	Rhan 2 - Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd	Cynnal arolwg staff a chyfarfodydd gyda'r staff ynghylch cymorth arweinyddiaeth/rheolaeth. Triogli gwybodaeth o'r adolygiad cymysgedd sgiliau ac ymgysylltu â staff i lunio argymhellion ar gyfer arweinyddiaeth/rheolaeth Ward Bryngofal yn y dyfodol.	Rheolwr y Gwasanaeth Pennaeth y Gwasanaeth	30 Mai 2017 30 Mehefin 2017
18	Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut i wella gwybodaeth staff y ward am uwch reolwyr y bwrdd iechyd.	Rhan 2 - Llywodraethu, arweinyddiaeth	Prynu cypyrddau arddangos newydd y gellir eu cloi i ddangos canllaw pwy yw pwy ar gyfer	Cyfarwyddwr Dros Dro MHLD	30 Mehefin 2017

Rhif y Dudalen	Yr Hyn sydd Angen ei Wella	Safon	Camau gan y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		ac atebolrwydd	aelodau'r Uwch Dîm Rheoli. Bydd cyfleuster yn cael ei ddatblygu hefyd i arddangos adborth o ymweliadau Uwch Reolwyr.	Cyfarwyddwr Dros Dro MHLD	30 Mehefin 2017
18	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gadarnhau pa drefniadau sydd ar waith i lenwi'r swydd clinigydd cyfrifol wag.	Rhan 2 - Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd	Cymorth locwm i gael ei gaffael tan i'r swydd barhaol gael ei llenwi	Cyfarwyddwr Clinigol/ Meddygol	30 Ebrill 2017
19	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynllun rheoli'r gweithlu i ddarparu tîm staff cyson ar gyfer Ward Bryngofal a sicrhau cyn lleied o ddefnydd â phosibl o staff cronfa ac asiantaeth.	7.1	Cytuno gorsefydliad dau weithiwr cymorth gofal iechyd. Cynnal adolygiad o ddefnydd asiantaeth a chronfa ar gyfer Chwefror, Mawrth ac Ebrill 2017 Dadansoddi canlyniadau o'r Adolygiad asiantaeth cronfa i hysbysu datblygiad cynllun rheoli'r gweithlu	Pennaeth y Gwasanaeth Rheolwr y Gwasanaeth Pennaeth y Gwasanaeth	Cwblhawyd 5 Mai 2017 31 Mai 2017
19	Dylai'r bwrdd iechyd ystyried cynyddu nifer yr hyfforddwyrr campfa hyfforddedig ar gyfer Ward Bryngofal.	7.1	Cofnodi achosion o anghenion na ddiwallwyd oherwydd diffyg goruchwylydd campfa a chymwysterau priodol.	Rheolwr y Ward	Gorffennaf 2017

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras): Julie Denley / Liz Carroll

Teitl: Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu Dros Dro /
Pennaeth Nyrsio

Dyddiad: 10 Ebrill 2017